

Cyfrifon Dysgu Personol - Cwestiynau Cyffredin

1. Pwy sy'n gymwys?

Mae'n rhaid i chi fod:

- Mewn gwaith
- Yn ennill llai na £ 26,000 y flwyddyn
- Dros 19 oed
- Yn gallu teithio i'r colegau lle cynhelir y cyrsiau
- Yn byw yng Nghymru

2. Sut mae cael gafael ar y rhaglen?

Y cwbl mae angen i chi ei wneud yw chwilio Cymru'n Gweithio neu ffonio 0800 028 4844. Neu, fel arall, gall unigolion gofrestru gyda'r colegau perthnasol yn uniongyrchol.

3. Oes angen i mi gael unrhyw sgiliau neu gymwysterau penodol?

Gan fod y rhaglen wedi'i bwriadu ar gyfer unigolion sydd am newid gyrfa, nid oes angen i chi gael gwybodaeth flaenorol am y sector. Gallwch ddilyn rhai o'r cyrsiau heb ddim cymwysterau neu sgiliau penodol. Ond, gallwch drafod gofynion y cwrs â'ch cynghorydd yn Cymru'n Gweithio neu gyda'r coleg pan fyddwch yn cael eich asesiad cyn mynediad.

4. A ydynt yn agored i bobl hunan-gyflogedig?

Ydynt, maent yn agored i bobl hunan-gyflogedig, cyflogedig ac unrhyw un sydd ar gyfnod ffyrlo, os ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

5. Ydw i'n gallu dilyn mwy nag un cwrs?

Ydych. Cyn dechrau'r cwrs byddwch yn llunio cynllun hyfforddiant a fydd yn nodi pa gyrsiau/cymwysterau rydych chi'n gallu eu dilyn i'ch helpu i symud ymlaen yn eich gyrfa ym mha sector bynnag rydych chi'n ei ddewis. Ond, mae'n rhaid ichi wneud yn siŵr eich bod yn gallu ymrwymo i gwblhau unrhyw rai o'r cyrsiau, neu'r cyrsiau i gyd, cyn dechrau.

6. Sut ydw i'n gwybod pa bryd y bydd y cwrs yn cael ei gynnal?

Bydd y coleg yn gwneud ei orau glas i gwrdd ag anghenion pawb wrth gynllunio'r dyddiadau a'r amseroedd y cynhelir y cyrsiau. Mae'r colegau yn hyblyg a'u nod fydd darparu'r dysgu o amgylch ymrwymadau teuluol a gwaith unigolion. Trafodir pa bryd rydych chi ar gael yn ystod eich asesiad cyn mynediad.

7. A ydych yn gallu eu cwblhau os oes gennych radd?

Ydych, os ydych yn meddu ar gymhwyster gradd. Os ydych yn astudio'n llawn amser ar gyfer gradd neu unrhyw gymhwyster ffurfiol arall, ni fydddech yn gymwys.

8. Beth yw Cymru'n Gweithio a pham fod angen i gleientiaid gofrestru â nhw?

Mae Cymru'n Gweithio yn cynnig dull syml o ddarparu cymorth gyda chyflogadwyedd i unigolion, sef un pwynt cyswllt unigol y gall unigolion ei ddefnyddio i gael y cyngor, yr arweiniad, y cymorth a'r hyfforddiant personol sydd eu hangen arnynt i gael a chadw gwaith hirdymor. Mae'r gwasanaeth cyngor am ddim yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb i unrhyw un dros 16 oed sydd ddim mewn addysg amser llawn ac sydd am gael gwaith. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys hyfforddiant penodol i swydd, chwilio am swyddi, ysgrifennu CV, cryfhau hyder, paratoi ar gyfer cyfweiliad a sicrhau lleoliadau gwaith. Gall y cynghorwyr arbenigol hefyd gyfeirio pobl at raglenni lle maent yn gallu cael cymorth gofal plant a chymorth gyda chludiant. Dyma'r brif sianel erbyn hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant.

9. Sut mae'r cwrs yn cael ei ariannu?

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 100% o costiau'r cwrs.

10. Faint fydd hyn yn ei gostio i mi?

Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cwrs 100%. Ond, bydd angen i chi dalu am eich teithio a sicrhau bod gennych chi ddigon o amser i allu ymrwymo i fynychu a chwblhau'r cwrs.

11. Fydd yn rhaid i mi ad-dalu cost y cyrsiau os nad ydw i'n gallu cwblhau'r cwrs?

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Peilot y Cyfrif Dysgu Personol. Rydym yn deall bod amgylchiadau personol yn gallu newid ac mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd yn codi pan na fydd cyfranogwyr yn gallu parhau â'u cwrs. Yn ystod cyfnod y peilot, ni fyddai cost i chi. Ond, rydym yn gofyn eich bod yn sicrhau eich bod yn gallu ymrwymo i'r cwrs cyn dechrau. Gan mai peilot yw hwn, allwn ni ddim rhoi sicrwydd i chi y bydddech yn gallu parhau â'ch dysgu drwy Gyfrif Dysgu Personol yn y dyfodol.

12. Pam dewis y cyrsiau hyn?

Mae prinder sgiliau yn y sectorau TGCh, adeiladu a pheirianeg yn achosi problemau i gyflogwyr o ran recriwtio. Rydym wedi dewis y cyrsiau hyn ar ôl ymgysylltu a thrafod yn helaeth â chyflogwyr, rhanddeiliaid, grwpiau cynrychioliadol a darpar gyfranogwyr i sicrhau eu bod yn ymdrin â'r prinder sgiliau yn y sectorau hyn. Byddwn yn cadw llygad ar hyn ac efallai y byddwn yn ychwanegu sectorau eraill yn y dyfodol.

13. Pa fath o gyfrif yw hwn? Ydw i'n cael arian yn uniongyrchol?

Fydddech chi ddim yn cael yr arian yn uniongyrchol, y cwbl mae angen i chi ei wneud yw cofrestru ar y cwrs. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r coleg yn uniongyrchol.

14. Os yw hwn yn gyfrif personol, a fydd yn rhoi cymorth tuag at ofal plant, teithio ac ati?

Ni fydd dim costau gofal plant na theithio yn cael eu hariannu drwy'r peilot.